**Rhif: WG34578**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

# Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol

Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Mai 2018

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78903-741-8

| | |
|---|---|
| Trosolwg | Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu safonau a chanlyniadau ar gyfer gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru.<br><br>Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru, y gall darparwyr gwasanaethau eirioli a'r rhai sy'n eu comisiynu ei ddefnyddio i fod yn siŵr bod y safonau'n cael eu cyrraedd, a darparu tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc. |
| Manylion cyswllt | Ruth Akers<br>E-bost: ruth.akers@gov.wales |
| Rhagor o wybodaeth | Mae fersiynau hawdd eu darllen, mewn iaith arall, mewn print bras ac mewn Braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais |
| Dogfennau cysylltiedig | Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol – Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)<br><br>Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br><br>Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011<br><br>Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 |

**Cynnwys** **Tudalen**


1. **Cyflwyniad** **4**
2. **Diben yr Ymgynghoriad** **4**
3. **Y cyfnod ymgynghori a dosbarthu** **5**
4. **Ymatebion a gafwyd** **5**
5. **Trosolwg Cyffredinol o'r Ymatebion** **5**
6. **Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad a Dadansoddiad Llywodraeth Cymru** **7**
7. **Casgliadau a'r Camau Nesaf** **15**
8. **Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr** **17**

## 1. Cyflwyniad

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn sail i'r Fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw rai sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw rai sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf roi sylw i bwysigrwydd rhoi cymorth priodol i alluogi'r unigolyn i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno neu arni i'r graddau sy'n briodol dan yr amgylchiadau.

Daeth dyletswydd Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli (neu gymorth trwy gynrychiolaeth) mewn perthynas â'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn wreiddiol dan adran 26A o Ddeddf Plant 1989 sydd wedi cael ei diddymu a'i disodli dan adran 174 o Ddeddf 2014.

Mae'r Fframwaith yn adeiladu ar sylfeini, ac wedi'i groesgyfeirio at, y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003) gwreiddiol y mae'n eu disodli. Mae'n nodi'r canlyniadau y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl mewn perthynas ag eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Mae hefyd yn nodi Fframwaith, y gall darparwyr gwasanaethau eirioli a'r rhai sy'n eu comisiynu ei ddefnyddio i fod yn siŵr bod y safonau hynny'n cael eu cyrraedd, gan eu galluogi i ddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

Er mwyn cefnogi'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £550,000 i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu "Cynnig Gweithredol", sef rhannu gwybodaeth am ei hawl a hawlogaeth statudol gyda phlentyn neu berson ifanc dan amgylchiadau penodol i gael cymorth gan Wasanaeth Eirioli Annibynnol. Dylai awdurdodau lleol wneud cynnig gweithredol o eiriolaeth i blentyn neu berson ifanc ar yr adeg gynharaf bosibl wedi i'r plentyn ddod yn rhan o'r system ofal statudol neu gael ei gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai'r cynnig hwn ddigwydd trwy gyfarfod wyneb-yn-wyneb rhwng y plentyn neu berson ifanc ac Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol fel ei fod yn cael gwybodaeth lawn am ei hawliau a'i hawlogaethau ac yn cael gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy mewn perthynas â rôl eiriolaeth annibynnol. Dylai'r cynnig gweithredol barhau trwy gydol y cyfnod y mae plentyn neu berson ifanc mewn gofal, a chael ei fonitro trwy ei adolygiadau statudol gan y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Ymrwymodd yr holl Awdurdodau Lleol i ddarparu'r cynnig gweithredol ym mis Mehefin 2017.

## 2. Diben yr ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod angen safoni gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn bod yn sicr bod y gwasanaethau eirioli

hynny a ddarperir yn rhai o ansawdd da, yn hygyrch ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

Mae'n hanfodol bod darparwyr gwasanaethau eirioli a'r rhai sy'n eu comisiynu'n gallu mesur ansawdd y gwaith yn ogystal â'i faint a darparu tystiolaeth bod safonau disgwyliedig yn cael eu cyrraedd.

Diben yr ymgynghoriad ynghylch Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol - Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Y Fframwaith) oedd ceisio barn pobl am y safonau a'r canlyniadau a oedd yn cael eu cynnig.

## 3. Y cyfnod ymgynghori a dosbarthu

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith a barodd am gyfnod o 12 wythnos o 31 Mawrth tan 23 Mehefin 2017. Cyhoeddwyd yr Ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a dosbarthwyd neges e-bost i ystod eang o randdeiliaid yn eu hysbysu ynghylch yr ymgynghoriad ac yn eu gwahodd i ymateb.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn 8 cwestiwn a oedd yn berthnasol i'r Fframwaith. Cynhyrchwyd fersiwn i blant a phobl ifanc hefyd a oedd yn gofyn yr un set o gwestiynau.

## 4. Ymatebion a gafwyd

Ar y cyfan cadwyd 35 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn bennaf oddi wrth sefydliadau â buddiant mewn gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc a hefyd oddi wrth grwpiau o bobl ifanc eu hunain. Mae'r holl sylwadau a gafwyd wedi cael ystyriaeth gyfartal. Hefyd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Voices from Care Cymru Weithdy ar y cyd gydag 8 o bobl ifanc, lle buont yn trafod y Fframwaith a'r effaith y byddai'n ei chael ar bobl ifanc. Yr adborth a gafwyd gan y bobl ifanc yn y grŵp oedd bod y safonau arfaethedig eisoes wedi cael eu paratoi'n dda. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn cael eu hysbysu'n gyson sut yr oedd y cynigion yn cael eu datblygu ymhellach ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfod gyda hwy pan fydd rhan 10 wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r Fframwaith. Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r holl ymatebion a gafwyd trwy'r ymgynghoriad a hefyd y gweithdy ar y cyd, ac yn nodi camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae rhestr o ymatebwyr wedi'i hatodi yn Atodiad A.

## 5. Trosolwg Cyffredinol o'r Ymatebion

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth eang i'r egwyddorion a oedd yn sail i ddatblygu canlyniadau eirioli gyda safonau ar gyfer plant a phobl ifanc cymwys, ac roedd cytundeb y bydd y Fframwaith yn helpu i ddwyn canlyniadau gwell i'r plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli. Roedd llawer yn croesawu'r cyfle i ddiweddaru'r safonau a'r canlyniadau, a hwythau'n datgan ei fod yn gam cadarnhaol a bod ei ddirfawr angen.

Roedd rhai o'r sylwadau cadarnhaol allweddol a gafwyd yn cynnwys:

"Croesewir y Fframwaith yn fawr a bydd yn rhoi cymorth cadarnhaol i ALau a phlant a phobl ifanc gael gafael ar wasanaethau eirioli sy'n rhoi cymorth cyson ac o ansawdd da."

"Rwy'n croesawu'r ffaith bod fersiwn wedi'i chwblhau o'r Fframwaith ar gyfer plant a phobl ifanc ar gael o ddechrau'r broses ymgynghori hon ac rwy'n deall bod ymgynghori wedi digwydd gyda phlant a phobl ifanc yn ystod y broses. Ceir neges glir o'r adroddiadau Lleisiau Coll bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am eiriolaeth yn bwysig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd y rhai ac arnynt ei angen ar yr adeg gywir, felly bydd barn plant a phobl ifanc am y Fframwaith yn rhan bwysig o'r broses hon."

"Roedd y fersiwn o'r Fframwaith a oedd yn addas i blant yn cynnig esboniad clir i blentyn neu berson ifanc ynglŷn â'r hyn y dylai fod yn disgwyl ei gael a hefyd yn rhoi cyngor i blentyn neu berson ifanc sut y dylai gyfleu cwyn os oedd yn teimlo'n anfodlon ag unrhyw un o'r gwasanaethau yr oedd wedi'u cael; mae hyn yn dangos iddynt bod eu barn a'u gwerthoedd yn cael eu parchu a bod hawl ganddynt gael eu trin â pharch bob amser".

"Mae'n drefnus ac yn hawdd i'w ddarllen. O safbwynt lleol mae'n glir iawn beth a ddisgwylir yn barod ac sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Byddai'r Fframwaith yn cael ei wella pe bai eiriolaeth annibynnol yn cael ei brandio yr un fath ledled Cymru."

"Mae'r Fframwaith yn nodi llinell sylfaen eglur ar gyfer dull cyson mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol ac unigol ledled Cymru i'r rhai sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol. Mae'r canllawiau'n eglur ac yn cael eu rhannu trwy ddull atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau sy'n golygu bod eglurder o ran yr hyn y dylai'r plentyn neu berson ifanc ei ddisgwyl, a beth ddylai'r comisiynydd a'r darparwr ei ddarparu – gan adael dim lle ar gyfer camddealltwriaeth."

Roedd rhai sylwadau negyddol a gafwyd yn cynnwys:

"Roedd un ymatebydd yn ystyried bod y Fframwaith yn weddol gadarn ond nid yw wedi'i argyhoeddi y bydd yn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Bydd yn rhaid wrth waith monitro gan gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau i sicrhau ei fod yn effeithiol. Mae'r iaith ychydig yn ddryslyd a allai arwain at wahanol ddehongliadau ac mae'r Fframwaith yn ailadroddus mewn mannau"

"Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y Fframwaith yn cynnwys y manylder sy'n ofynnol i sicrhau y darperir gwasanaethau eirioli effeithiol ac o ansawdd da, sy'n adlewyrchu arfer da ac ystod a dyfnder anghenion y boblogaeth hon o blant a phobl ifanc. Rydym yn ceisio sicrwydd bod capasiti'r gweithlu eiriolaeth broffesiynol i roi ddarparu gwasanaethau eirioli wedi'u teilwra ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion iaith a lleferydd yn cael ei archwilio'n briodol."

"Yn ein tyb ni bydd yn rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn dweud wrth bobl

amdano'n gyson. Nid yw'n ddigon siarad amdano unwaith neu ddwy neu siarad amdano mewn gwers ABCh."

Ymatebir i'r ymatebion a ddarparwyd dan bob un o'r cwestiynau neu, lle maent yn ymwneud â datblygu a chyflawni polisi'n ehangach byddant yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y rhaglenni hynny.

## 6. Ymatebion i'r Cwestiynau ymgynghori a Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

Roedd cyfanswm o 35 o ymatebion ac 1 ymateb mewn gweithdy.

**Cwestiwn 1:**

| **A fydd y fframwaith hwn yn helpu darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau eirioli i sicrhau bod ansawdd eu gwasanaeth yn gyson ledled Cymru?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **Bydd 20** | **Na fydd 0** | **Ddim yn Siŵr 6** | **Heb Roi Ateb 9** |

**Crynodeb**
Dywedodd 57% o'r rhai a ymatebodd y bydd y Fframwaith yn helpu darparwyr gwasanaethau eirioli a chomisiynwyr gwasanaethau eirioli i sicrhau bod eu gwasanaeth o ansawdd cyson ledled Cymru. Er bod popeth y cynigir ei roi ar waith yn swnio'n gadarnhaol ac y bydd yn rhoi gwasanaeth cyson i Gymru, mynegwyd pryder bod y Fframwaith yn methu ag ystyried adnoddau pob awdurdod lleol unigol, ac nad yw'n datgan pa gymorth fydd yn cael ei roi i ddarparwyr gwasanaethau eirioli i wneud y newidiadau hyn i wneud y gwasanaethau yn gyson â'r dull Cymru gyfan.

Roedd pryderon na roddir syniad sut y bydd y safonau cenedlaethol hyn ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn cysylltu â'r sector arbenigol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o ran y dangosyddion Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016-2021. Mae angen ystyried beth fydd y berthynas rhwng y safonau hyn a'r canllawiau comisiynu statudol ar gyfer gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd ar ddod, a phan un a fydd y canllawiau terfynol yn cydnabod hawliau plant a phobl ifanc y mae eu profiadau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt, i gael mynediad at eiriolaeth broffesiynol wrth ganlyn eu hawliau fel plant mewn angen neu yn y system ofal. Mae angen eglurder ynglŷn â'r cwestiwn a allai gwasanaethau arbenigol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael eu comisiynu i ddarparu'r eiriolaeth hon ar gyfer plant a phobl ifanc y mae cam-drin wedi effeithio arnynt.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae'n galondid gweld bod cyfran sylweddol o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y bydd y Fframwaith yn helpu darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau eirioli i sicrhau bod eu ansawdd eu gwasanaeth yn gyson ledled Cymru. Ceir pwyslais eglur ar yr angen i roi cymorth cyson ac o ansawdd da, gyda

mesurau monitro effeithiol yn cael eu sefydlu o'r dechrau un.

Bydd y cyllid ar gyfer y cynnig gweithredol a ddarperir fel grant yn cael ei ddosbarthu yn unol â'r fformwla a gymhwyswyd i wasanaethau plant ac a gytunwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC') a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ('ADSS Cymru').

Mae'r cyngor a ddarparwyd gan y tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn dynodi na ddylai'r canllawiau comisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael unrhyw effeithiau anffafriol. Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu i ddarparu fframwaith ar gyfer comisiynu gwasanaethau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ddiwallu anghenion yn effeithiol ac yn deg ledled Cymru. Os canfyddir angen am wasanaethau eirioli a chymorth ar gyfer plant yna dylai comisiynwyr allu comisiynu gwasanaeth – gan ddibynnu ar y cyllid a'u hargaeledd wrth gwrs.

Mae plant a phobl ifanc ledled Cymru, sy'n gymwys i gael gwasanaethau eirioli statudol yn unol â gofynion Deddf 2014, yn cael cymorth i fod â llais mewn penderfyniadau a wneir am eu hamgylchiadau bywyd. Cyflawnir hyn trwy weithio ochr yn ochr â darparwyr gwasanaethau eirioli i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau eirioli sy'n seiliedig ar faterion penodol ac o ansawdd da, ac i gynyddu mynediad at y gwasanaethau hynny. Er mwyn sicrhau hyn, mae Tros Gynnal Plant wedi cael cyllid dan Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer 2017-18 i roi cymorth i weithredu unrhyw argymhellion trwy fabwysiadu'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol.

**Cwestiwn 2:**

**A fydd y fframwaith hwn yn helpu i roi dealltwriaeth glir o'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n eu defnyddio, a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol felly i'w bywydau?**

| Cyfanswm | Bydd | Na fydd | Ddim yn Siŵr | Heb Roi Ateb |
|---|---|---|---|---|
| | 18 | 2 | 7 | 8 |

**Crynodeb**

Roedd dwy ran o dair o'r rhai a roddodd ateb yn cytuno bod y Fframwaith yn glir o ran y safonau i'w dilyn ar gyfer darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau eirioli; ac yn cytuno y byddai'r safonau, o'u gweithredu a'u monitro'n llawn, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Dywedodd 51% o'r rhai a ymatebodd fod angen ennyn ymgysylltiad plant a phobl ifanc, ac y dylent hefyd fod yn rhan o'r trefniadau monitro i sicrhau bod gwahaniaethau cadarnhaol yn cael eu gwneud i'w bywydau.

Roedd awgrym bod peth o'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn y Fframwaith yn ddryslyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylw a wnaed ynglŷn â'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn y Fframwaith. Bwriedir rhoi sylw i hyn fel rhan o'r gwaith parhaus, a fydd yn cynnwys diweddaru'r Fframwaith i adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd a sicrhau bod y Fframwaith yn glir ac yn ddealladwy.

Trwy'r Dull Cenedlaethol, ac yn enwedig y Cynnig Gweithredol, mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd cysondeb o ran mynediad at eiriolaeth a fydd yn gwella profiad plant a phobl ifanc mewn gofal ac yn hybu canlyniadau cadarnhaol iddynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y cynnig gweithredol yn cael ei ddarparu i'r un lefel a safon gwasanaeth, ac mae wedi sicrhau y bydd monitro effeithiol yn digwydd trwy gynnwys hyn yn y trefniadau o ran y cynnig gweithredol.

**Cwestiwn 3:**

**A fydd y fframwaith hwn yn helpu'r rheini sy'n comisiynu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i sicrhau ansawdd eu trefniadau comisiynu ac yn cynnig modd o ddangos tystiolaeth o ddarparu gwasanaethau eirioli sydd o ansawdd uchel ac yn effeithiol?**

| Cyfanswm | Bydd<br>16 | Na fydd<br>2 | Ddim yn Siŵr<br>8 | Heb Roi Ateb<br>9 |
|---|---|---|---|---|

**Crynodeb**
Fe wnaeth 16 o'r 26 a atebodd y cwestiwn hwn ei ateb yn gadarnhaol ac roeddent yn cytuno bod y Fframwaith yn glir o ran y safonau i'w dilyn ar gyfer darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau eirioli, a'i fod yn darparu modd i ddangos tystiolaeth o ddarpariaeth eirioli sy'n effeithiol ac o ansawdd da. Mae'r ffocws ar ganlyniadau a mapio i ganlyniadau llesiant Deddf 2014 yn angenrheidiol ac yn cael ei groesawu.

Fodd bynnag, fe bwysleisiodd rhai yr angen i sicrhau y bydd y Fframwaith wedi'i ailinio'n agos â'r drefn o reoleiddio gwasanaethau eirioli dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae Grŵp Technegol wedi cael ei sefydlu i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i oleuo datblygiad pellach Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) dan Ddeddf 2014; a gweithgarwch cysylltiedig dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Mae'r Grŵp Technegol i fod i gwblhau ei waith dan Ddeddf 2016 yn gynnar yn 2018 a bydd hyn hefyd o gymorth i fireinio'r Cod diwygiedig dan Ran 10.

**Cwestiwn 4:**

| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig gweithredol o gymorth eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ddigon o wybodaeth am y gwasanaethau eirioli sydd ar gael a'u bod yn deall yn well sut i gael mynediad atynt pan fydd angen?** |
|---|
| **Crynodeb**<br>Ar y cyfan roedd derbyniad cadarnhaol i'r 'cynnig gweithredol', ond o'r ymatebion a gafwyd mae'n amlwg bod llawer yn pryderu ynghylch monitro a gwerthuso'r cynnig gweithredol. Cafodd y pryderon hyn eu hailddatgan mewn rhai o'r ymatebion i gwestiwn 5 hefyd.<br><br>Roedd llawer o'r farn bod ffordd bell i fynd o ran helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut y gall gwasanaethau eirioli eu helpu a meithrin gwydnwch. Mae plant a phobl ifanc anabl yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu hanghenion amrywiol sy'n aml yn gymhleth, felly mae'r cyfle i gael gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol yn cael ei groesawu'n fawr a dylai fod yn gyson ledled Cymru yn hytrach na dibynnu ar yr ardal lle maent yn byw.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau dull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau eirioli gan gynnwys ADSS Cymru, CLILC a'r Uwch Grŵp Arwain ar gyfer eiriolaeth i lywio'r broses o weithredu a monitro cynnydd y Cynnig Gweithredol.<br><br>Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r cynnydd o ran darparu'r cynnig gweithredol i sicrhau bod y darparw(y)r yn bodloni manyleb y Cynnig Gweithredol a bod y gwasanaethau y mae defnyddwyr yn eu cael o'r ansawdd gorau. |

**Cwestiwn 5:**

| **A ydych chi'n meddwl y bydd y fframwaith hwn yn helpu i sicrhau bod y cynnig gweithredol o eiriolaeth yn cael ei wneud mewn modd cyson a threfnus ledled Cymru?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **Ydw**<br>**18** | **Nac ydw**<br>**0** | **Ddim yn Siŵr**<br>**9** | **Heb Roi Ateb**<br>**8** |
| **Crynodeb**<br>Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r Fframwaith ond roedd cwestiynau ynghylch y cynnig gweithredol ei hun, yn enwedig yr angen i'r cynnig gweithredol gael ei wneud mewn modd priodol i bob un plentyn. Pe na bai hyn yn cael ei wneud yn briodol, gallai'r cynnig gweithredol ddod yn symboleiddiol ac yn niweidiol i'r plentyn neu'r person ifanc. Roedd awgrym hefyd bod angen iddo fod yn oedran-benodol ac wedi'i addasu i anghenion penodol y plentyn, yn enwedig os oes gan y plentyn anghenion cymhleth. Er y bydd hyn yn dwyn goblygiadau o ran adnoddau, mae'n rhaid bod y system yn deg, yn effeithlon ac yn gyfartal.<br><br>Roedd rhai ymatebion yn datgan nad yw'r broses o hysbysu plant a phobl ifanc am eu hawlogaeth yn gadarn. Mae'r broses hwyluso'n hollbwysig, a byddai proses fwy | | | | |

cyfarwyddol i weithwyr cymdeithasol ei dilyn yn helpu i warchod rhag unrhyw anghysonderau a allai ddod i'r fei.

Dywedodd Tros Gynnal Plant nad ydynt yn teimlo y bydd y Fframwaith ar ei ben ei hun yn cyflawni'r uchod, a bod yn rhaid ystyried y Fframwaith ochr yn ochr â phob agwedd arall ar y Dull Cenedlaethol gan gynnwys manyleb y gwasanaethau a'r canllawiau ynghylch y cynnig gweithredol. Cafodd hyn ei ategu gan 3 ymatebydd arall a argymhellodd y dylai'r canllawiau ynghylch y cynnig gweithredol gael eu cryfhau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae'r fframwaith safonau a chanlyniadau'n un o nifer o elfennau sy'n cael eu rhoi yn eu lle. Yn unigol ac ar y cyd, mae'r rhain yn disgrifio ac yn darparu hawliau a chyfrifoldebau clir i blant a'r rhai sy'n eu cefnogi ac yn sicrhau eu lleisiau mewn penderfyniadau ynghylch y canlyniadau sydd o bwys iddynt. Mae hyn yn gyson â'r ymrwymiadau i sicrhau llais cryf a rheolaeth gref trwy Ddeddf 2014. Bydd yr ymatebion ymgynghori hyn yn goleuo ac yn sicrhau hawliau a disgwyliadau clir a chydlynol i blant o fewn y Fframwaith.

Yn gyson â'r ymrwymiadau i sicrhau llais cryf a rheolaeth gref, mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth, a ategir gan yr holl Godau Ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd dan Ddeddf 2014, yn galluogi awdurdodau lleol ac unigolion, mewn partneriaeth go iawn, i ystyried yr ystod o fathau o gymorth eirioli sydd ar gael a rhoi'r trefniadau angenrheidiol yn eu lle. Bydd hyn yn cynnwys y gofynion penodol bod yr awdurdod lleol yn trefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol i gefnogi'r unigolyn lle bynnag y mae awdurdod lleol yn arfer swyddogaeth berthnasol dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r person hwnnw. Mae'r Dull Cenedlaethol yn cael ei gyflawni ar sail ranbarthol.

**Cwestiwn 6:**

**Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru ddeall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?**

| Cyfanswm | Bydd | Na Fydd | Ddim yn Siŵr | Heb Roi Ateb |
|---|---|---|---|---|
| | 19 | 1 | 1 | 14 |

**Crynodeb**
Roedd 54% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y ffocws ar werthfawrogi amrywiaeth plant a phobl ifanc yn rhywbeth i'w groesawu a bod y datganiadau newydd o ganlyniadau eiriolaeth yn cynnwys ymrwymiad mwy datganedig i hybu a pharchu amrywiaeth.

Dylai'r Fframwaith gael effeithiau cadarnhaol ar y rhai â nodweddion gwarchodedig yn enwedig mewn perthynas ag oedran ac anabledd. Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith yn cyfeirio'n benodol at blant a all fod mewn ysgolion neu lety preswyl, y

bydd gan nifer ohonynt nodwedd warchodedig, sef ‘anabledd’. Heb y cyfeiriad penodol hwn mae’r cwestiwn ynglŷn â sut y bydd gwasanaethau eirioli’n cael eu hyrwyddo i’r plant hyn ac yn cael eu darparu (yn enwedig os yw’r plentyn yn byw’r tu allan i Gymru) a sut y bydd ansawdd gwasanaethau’n cael ei ddangos a’i fesur, yn dal i fod heb ei ateb.

Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai’r Fframwaith gael ei ddiwygio fel nad dim ond “mynediad at gyfieithwyr ar y pryd” yw’r mesur ond “mynediad at gyfieithwyr ar y pryd o ansawdd da” gan fod teimlad y byddai ar rai ardaloedd â phoblogaeth amrywiol angen y gofyniad pwysig hwn er mwyn i wasanaethau a ddarperir adlewyrchu’r rhai ac arnynt angen gwasanaethau mewn modd priodol.

Roedd ymateb cryf y bydd angen i Wasanaethau Eirioli fod â’r sgiliau a’r wybodaeth angenrheidiol i roi cymorth priodol i unigolion yn y grwpiau hyn a gallu dangos bod hyfforddiant wedi cael ei gwblhau mewn perthynas â hyn.

Er bod lleoliad hygyrch i bobl ifanc ag anableddau wedi cael ei ystyried yn y Fframwaith, cwestiynir y ffaith nad yw’r amser y darperir gwasanaethau wedi cael ei grybwyll, ac mae hyn yn arbennig o bwysig i ofalwyr ifainc sy’n cael cymorth gofal cymdeithasol.

Eto roedd trefniadau monitro’n ffocws allweddol mewn ymatebion i’r cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Caiff Rheoliadau, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol oll eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir yn Neddf 2014 sy’n cynnwys dyletswydd drosfwaol, yn adran 6(2)(c), bod yn rhaid i unrhyw un sy’n arfer swyddogaeth dan Ddeddf 2014 roi sylw i nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn, sy’n cynnwys iaith.

Mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (‘Deddf 2015’) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio tuag at yr un weledigaeth mae Deddf 2015 yn sefydlu saith nod llesiant, ac un ohonynt yw “Cymru sy’n fwy cyfartal” gan sicrhau cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau.

**Cwestiwn 7:**

**Hoffem glywed eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar**

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

**Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Crynodeb**
Roedd cytundeb cyffredinol y dylai plant a phobl ifanc allu cael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith. Pwysleisiodd mwy nag un sefydliad a ymatebodd i’r

ymgynghoriad ei bod yn bwysig nodi bod her sylweddol o ran recriwtio eiriolwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r rôl yn dda. Mae'r angen am eiriolwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, ac felly hefyd yr angen am gyfieithwyr ar y pryd ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n siarad iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf. Mae gwasanaethau eirioli'n darparu ac mae angen iddynt barhau i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng amrywiaeth o ieithoedd a adlewyrchir yn Natganiad o Ganlyniad 3.

Nododd Plant yng Nghymru yn benodol iawn yn eu hymateb fod yn rhaid i brosesau comisiynu sicrhau bod yr holl wasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol gydymffurfio â'r gofynion o ran y Gymraeg, a bod darpariaeth yn Gymraeg ar gael i'r holl blant a phobl ifanc yn unol â'u dewis iaith. Fodd bynnag, mae un o'u haelodau wedi dweud bod yn rhaid bod rhywfaint o hyblygrwydd o ystyried y cymhlethdod mewn perthynas â defnydd iaith, ac fe wnaeth aelod arall nodi bod llawer o bobl ifanc yn fwy agored i niwed os ydynt yn gorfod ymgysylltu mewn iaith heblaw eu dewis iaith. Fel rhan o'r broses fonitro, gall fod o gymorth casglu enghreifftiau o achosion/arfer da gan wasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a chomisiynwyr i helpu i wneud gwasanaethau dwyieithog yn norm, a helpu i sicrhau bod plant yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn unol â'u dewis iaith beth bynnag fo'u hamgylchiadau neu eu lleoliad daearyddol. Dylid sicrhau cysondeb yn unol ag Erthygl 30 yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn hefyd.

Gallai'r agwedd hon gael ei chryfhau i adlewyrchu'r 'cynnig gweithredol' o ddarpariaeth Gymraeg sy'n cydnabod mai mater o angen ac nid dewis yw dewis iaith. Mae angen i ddarpariaeth gofal cymdeithasol o ansawdd da adlewyrchu a hybu'r dull hwn fel y Mwy na geiriau – Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Roedd Tros Gynnal Plant o'r farn na fyddai'r canllawiau'n ychwanegu gwerth at arfer cyfredol o ran y Gymraeg, gan fod prosesau comisiynu presennol yn sicrhau bod gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn cydymffurfio â'r gofynion o ran y Gymraeg; nid yw'r Fframwaith yn awgrymu unrhyw beth mwy.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Dan delerau Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol Llywodraeth Cymru cynhaliwyd asesiad o effeithiau Deddf 2014 yn ystod y broses Cyflwyno Bil. Ar y pryd canfu'r asesiad bod effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn cael eu hystyried yn annhebygol a bod y Ddeddf wedi'i bwriadu i greu system decach a mwy cyfartal ar gyfer pobl sy'n gymwys i gael gofal a chymorth. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnwys llawer o'r hyn a oedd yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r ddeddfwriaeth hon sy'n darparu'r Fframwaith cyfreithiol trosfwaol ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus: rhaid i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol roi sylw i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau' yn 2012 i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Un o'r egwyddorion allweddol yw'r Cynnig Gweithredol o ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

**Cwestiwn 8:**

| **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi cyfeirio atynt yn benodol, mae croeso i chi eu nodi isod** |
|---|
| **Yn ogystal â'r pwyntiau a godwyd dan gwestiynau penodol fe godwyd y materion canlynol.**<br><br>• Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i sicrhau bod y modd y cydymffurfir â'r Fframwaith yn cael ei fonitro a bod barn plant a phobl ifanc yn cyfrannu at y broses hon.<br><br>Dywedodd y Comisiynydd Plant y bydd angen i'r Dull Cenedlaethol a'i holl rannau cyfansoddol gael eu hadlewyrchu yng Nghod Ymarfer Rhan 10 er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn rhan o'r gofynion statudol mewn perthynas ag Eiriolaeth ac nid dim ond yn wasanaeth "ychwanegol" sy'n eistedd y tu allan i'r Fframwaith rheoleiddiol. (Comisiynydd Plant Cymru)<br><br>• Eglurodd Gofal Cymdeithasol Cymru fod angen diweddaru'r safon sy'n ymwneud â sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd.<br><br>• Roedd galwad bod angen i'r safonau gysylltu â safonau eraill megis y rhai sy'n gysylltiedig â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br><br>• Gofynnodd ymatebwyr pa gymorth fyddai ar gael i weithredu'r Fframwaith.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>Ar ôl cael trafodaethau pellach gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd bydd angen i eiriolwyr fod â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd cywir. Mae dysgu a datblygu felly'n elfen bwysig o ddarpariaeth o ansawdd da fel a gydnabyddir yn y Fframwaith. Yn ychwanegol at y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y nodir eu bod yn berthnasol yn y Fframwaith, byddai GCC yn argymell cynnwys Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol pellach mewn perthynas ag eiriolaeth sydd wedi cael eu mewngludo i'r gyfres o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol http://www.ccwales.org.uk/qualifications-and-nos-finder/n/health-and-social-careand-leadership-and-management-of-care-service/#sthash.NWixidVN.dpu<br><br>Mae'r Fframwaith yn cyfeirio at hyfforddiant priodol ar gyfer eiriolwyr a ddylai hefyd gynnwys hyfforddiant ar ddeddfwriaeth, yn benodol Deddf 2014 a gofynion ehangach o ran diogelu.<br><br>Mewn perthynas â'r gofynion o ran cymwysterau a bennir ar gyfer eiriolwyr o fewn dogfen y Fframwaith (datganiad eiriolaeth 1 adran f); bydd y Cymhwyster City & Guilds (C&G) Lefel 3 yn cael ei ddisodli ym mis Medi 2019 gan gymwysterau newydd sy'n cael eu datblygu gan Cymwysterau Cymru fel rhan o'u hadolygiad hwy o Gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y cymhwyster |

newydd ar lefel 4 yn hytrach na lefel 3 ac mae corff dyfarnu wedi cael ei benodi i ddatblygu a darparu'r cymhwyster.

Bydd y cymhwyster blaenorol yn dod yn gymhwyster rhagflaenol ond byddai disgwyl bod gwasanaethau eirioli'n sicrhau bod eiriolwyr yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyson. Bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y gyfres newydd o gymwysterau unwaith y bydd y gwaith datblygu wedi cael ei gwblhau.

Mae cymorth ar gael i weithredu'r Fframwaith trwy'r chwe rhanbarth Awdurdodau Lleol Caerdydd a'r Fro, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Cwm Taf, Gwent a Bae'r Gorllewin sy'n llwyr ymrwymedig i weithredu'r Dull Cenedlaethol ac mae'r holl drefniadau yn eu lle i wneud hyn yn bosibl. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu hyd at £550,000 i'r rhanbarthau trwy grant rhanbarthol ar gyfer y blynyddoedd 2017/18 a 2018/19.

## 7. Casgliadau a'r camau nesaf

Bydd lefel y cymorth eirioli sy'n ofynnol yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol plentyn neu berson ifanc, pa mor agored i niwed ydyw, ei oedran a'i ddealltwriaeth yn ogystal â natur y pryder. Mae'n debygol y bydd ystod o ddulliau mewn perthynas ag eiriolaeth a sgiliau arbenigol yn ofynnol, yn enwedig i blant a phobl ifanc ag anabledd neu anawsterau dysgu sy'n agored iawn i niwed. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar yr hyn y mae plant, pobl ifanc a darparwyr gwasanaethau wedi'i ddweud. Mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd y Fframwaith yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau yn y pen draw.

Cafwyd llawer o sylwadau manwl sydd wedi cael eu dadansoddi. Mae rhai wedi cael eu derbyn a byddant yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith; fodd bynnag ni fydd argymhellion eraill yn cael eu cynnwys ond gellir eu hystyried yn ystod y gwaith parhaus mewn perthynas â monitro a gweithredu a byddant yn cael eu rhannu i gael eu hystyried gan yr adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb arweiniol yn eu maes gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys yr offeryn pellter a deithiwyd ac ymestyn y gwasanaeth ar gyfer iechyd ac addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithredu'r safonau yn y Fframwaith hwn. Fodd bynnag, mae angen gwneud hyn ochr yn ochr â datblygu rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau eirioli, dan Ddeddf 2016 (erbyn mis Ebrill 2019) a diwygiadau angenrheidiol i God Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth), dan Ddeddf 2014 (yng ngwanwyn 2018).

Mae swyddogion yn bwriadu ymgorffori rhannau perthnasol o'r Fframwaith – y rhai sy'n berthnasol i gomisiynwyr gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc mewn awdurdodau lleol – yng Nghod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), er mwyn rhoi effaith statudol iddo. Fel pwynt o broses – bydd angen i'r Cod diwygiedig gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad am gyfnod o 40 diwrnod cyn y gellir ei gyhoeddi.

Sefydlwyd Grŵp Technegol ac mae wedi cwblhau ei waith ar ddatblygu'r safonau ar gyfer darparwyr Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, sy'n ofynnol o fewn rheoliadau dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (i'w datblygu yng ngham 3 y broses o roi ar waith).

Bydd llawer o'r polisi sy'n sail i'r rheoliadau hynny (a chanllawiau statudol sy'n cyd-fynd â hwy) yn deillio o elfennau o'r Fframwaith sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau eirioli. Mae cyfarwyddiadau polisi cychwynnol ar gyfer rheoliadau dan Ddeddf 2016 wedi cael eu cyflwyno i'r Gweinidog.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn a diweddaru'r Cod ar Ran 10 cyn gynted ag sy'n ymarferol, ochr yn ochr â datblygu rheoliadau drafft dan Ddeddf 2016 (y mae ymgynghoriad yn eu cylch i fod i ddigwydd o fis Mai 2018).

**Atodiad A – Rhestr lawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a roddodd ganiatâd i rannu eu hymatebion**

| Rhif | Cyfrinachol I/N | Enw | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| 1 | N | Emma Roberts | Panel Ieuenctid – Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy - CCGC |
| 2 | I | Gofynnodd yr ymatebydd am gael aros yn ddienw | |
| 3 | N | Bethan Watkins | Youth Participation Worker / Gweithiwr Cyfranogi Ieuenctid |
| 4 | N | Mrs Dawn Pickering | Uwch Ddarlithydd mewn Ffisiotherapi / Myfyrwraig PhD Ran-amser |
| 5 | N | Karen Richardson | Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Y Gyfarwyddiaeth Menywod a Phlant |
| 6 | N | Sarah McCarty, | Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu, Gofal Cymdeithasol Cymru |
| 7 | N | Gerard E Kerslake HMI | Estyn |
| 8 | N | Sarah Ellis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 9 | N | Sarah Capstick | Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) |
| 10 | N | Rosie Raison | Y Coleg Nyrsio Brenhinol yng Nghymru |
| 11 | N | Caroline Walters | Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yng Nghymru |
| 12 | N | Aileen Williams | Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint |
| 13 | N | Alison Jane Thomas | Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint |
| 14 | N | Stewart Blythe | CLlLC |
| 15 | N | Rachel Thomas | Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |
| 16 | N | Sarah Durrant | Tros Gynnal |
| | I | Gofynnodd yr ymatebydd am gael aros yn ddienw | |
| 18 | N | Michelle Freeman | Swyddog Cymorth Partneriaeth Pobl Conwy |
| 19 | N | Mark Davies | Cyngor Bro Morgannwg |
| 20 | N | Ginger Wiegand | Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru |
| 21 | N | Emma Sparrow | Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| 22 | N | Carol Floris | Voices from Care Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 23 | N | Hilary Watson | Cymorth i Fenywod Cymru |
| 24 | N | Sean O'Neil | Plant yng Nghymru |
| 25 | N | Sean O'Neil | Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan |
| 26 | N | Carmel Costello | Grŵp Cymorth Ballynahinch |
| 27 | N | Zein Pereira | Afasic Cymru |
| 28 | N | Emma Roberts | Panel Ieuenctid CGGC |
| 29 | N | Dim manylion personol wedi'u cynnwys | marc post CBS Wrecsam |
| 30 | N | Dim manylion personol wedi'u cynnwys | marc post CBS Wrecsam |
| 31 | N | Dim manylion personol wedi'u cynnwys | marc post CBS Wrecsam |
| 32 | N | Dim manylion personol wedi'u cynnwys | marc post CBS Wrecsam |
| 33 | N | Mr R W Ebley | Heb ei gwblhau |
| 34 | N | Julie Webley | Darpar Ymwelydd Iechyd |
| 35 | N | Ele Hicks | Diverse Cymru |
| 36 | N | Llywodraeth Cymru a Voices From Care Cymru | Gweithdy |